Newyddion – Mehefin 2008

Mae bron yn ddiwedd y flwyddyn ysgol ac yn brysur iawn yn Ysgol Nefyn fel arfer. Bu digon o gyfle i weithio tu allan i'r dosbarth ar gyfer yr holl ddigyblion- Cafodd plant Blwyddyn 6 dreulio 3 diwrnod yng Ngwersyll yr Urdd Glanllyn yn ymuno ymhob math o weithgareddau awyr agored gan gynnwys canwïo, rafftio, dringo'r wal ddringo, gweithio ar raffau'n y goedwig, nofio, helfa drysor, bowlio deg a.y.y.b. Tra bu plant Blwyddyn 5 yng Nghanolfan Rhyd Ddu'n mwynhau'r gwaith maes yno a chael cerdded i ben yr Wyddfa. Mae'n amlwg fod y plant a'r staff yn ffit iawn!

'Roedd plant Blynyddoedd 3 a 4 wedi mwynhau eu diwrnod ar Ynys Enlli a phlant Adran y Babanod wrth eu boddau ym Mhili Palas Môn.

Ymwelodd plant Blwyddyn 5 â Phlas Mawr Conwy a Chastell Gwydir Llanrwst fel rhan o'u gwaith Hanes ar y Tuduriaid. Buont hefyd yn cystadlu mewn gŵyl gyfeiriannu yn Nant Gwrtheyrn.

'Dysgodd plant Blwyddyn 1 sut i groesi'r ffordd yn ddiogel unwaith bob wythnos (Cynllun Kerbcraft). Yna daeth Carys Ofalus i'r ysgol i gyflwyno tystysgrifau i'r plant. Bu cyfle i blant Adran y Babanod ganu gyda Carys Ofalus mewn cyngerdd yn Ysgol Uwchradd Botwnnog.

Cymdeithasu â'i gilydd a chyd-chwarae fu plant yr ysgol i gyd pan aethom am dro i'r traeth i dreulio prynhawn yno. Yn gyntaf roedd picnic wedi ei baratoi ar gyfer y plant gan ferched y gegin. Diolch yn fawr iawn iddyn nhw am eu gwaith caled drwy gydol y flwyddyn ac am eu rhoddion arianol yn dilyn y Bingo bob nos Lun.

Unwaith eto daeth ffrindiau i weithio gyda'r plant yn y dosbarthiadau.

*Bu Anti Nia'n cynnal gwasanaethau i'r ysgol gyfan.

*Daeth aelodau Clwb Golff Nefyn i addysgu'r plant sut i chwarae golff bob Dydd Llun.

*Bu Meinir Pierce Jones yn gweithio gyda'r plant ym Mlynyddoedd 3 a 4 ddwy waith yn ystod y mis- Creu stori ar y cyd a chyfansoddi cerdd ar Ynys Enlli.

*Bu Sheila Bunnell yn cyflwyno gwaith ar Fasnach Deg ac yn addysgu'r disgyblion ym Mlwyddyn 6.

*Gwaith Celf ac Ynys Enlli oedd testun Kim Atkinson (a fu'n byw ar yr ynys yn y gorffennol) pan fu'n gweithio gyda phlant Blynyddoedd 3 a 4 (yn dilyn eu hymweliad â'r Ynys). Bu'r plant yn printio mewn du a gwyn.

*Roedd plant Blynyddoedd 3 a 4 wrth eu boddau hefyd pan fu'r Parch Robert Roberts yn trafod a sgwrsio'n ystod un o'r gwersi Addysg Grefyddol.

*Cawsom gyfle i weld aelodau'r Cyngor Ysgol ar raglan "Ffeil". Aeth y plant i chwilio am arwyddion llygredd yn y dre gyda Anti Lis (aelod o'r Heddlu). Hefyd 'roedd cyfle i edrych ar y llythyrau'n y bocsus postio a gynlluniodd y plant eu hunain.

Bu cyfle i gystadlu a chyd-chwarae gyda phlant ysgolion eraill yr ardal-

- Cystadleuaeth hoci ym Mhorthmadog.
- Gala nofio yng Nghanolfan Hamdden Dwyfor.
- Rygbi'r Ddraig ym Modegroes.
- Athletau Blynyddoedd 3 a 4 yng Nghanolfan Hamdden Dwyfor.
- Plant Blwyddyn 5 yn creu tegan yn symud- sialens K'nex.

Diolch i'r plant a gerddodd i'r ysgol yn ystod wythnos Genedlaethol Cerdded i'r Ysgol ac i aelodau'r Gymdeithas Rieni a gasglodd arian ar gyfer Ysgol Nefyn yn dilyn eu taith gerdded i lawr i Nant Gwrtheyrn.

Llongyfarchiadau i Anti Cheryl a dderbyniodd tystysgrif "Gwirfoddolwraig y flwyddyn" ynghŷd â gwirfoddolwyr y flwyddyn eraill mewn seremoni ym Mhlas Glyn y Weddw.

Diolch yn fawr iawn i Llinos a Lowri sydd wedi gweithio'n galed gyda'r plant yn ystod eu cyfnod addysgu'n Ysgol Nefyn. Rydym yn dymuno'r gorau i'r ddwy ohonynt yn y dyfodol. Bydd chwith mawr gan y staff a'r plant ar eu holau.